

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 1 Ionawr 6, 2022 50c.

Aelodau newydd



Pleser oedd croesawu aelodau newydd i'n plith mewn oedfaon cymun dros y ddeufis ddiwethaf. Estynwn groeso cynnes i Dafydd a Lowri Rees, David a Linda Gwenter, Elin Leyshon a William Price i deulu capel Hope-Siloh.



BYW DYSGEIDIAETH IESU

Neges Dymhorol y Parchg Tom Evans, darpar-gadeirydd Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin

Dydwi i erioed wedi bod i'r Ddinas Sanctaidd

nac i Nasareth na Bethlehem, ond darllenaais ryw dro bod y drws gwreiddiol i'r stabal yr honnir i'r Iesu gael ei eni ynddi yn un isel iawn, a bod yn rhaid i'r sawl oedd am fynd i weld y baban yn y preseb, benlinio er mwyn cael mynediad. Dyle dathlu felly olygu ein bod ninnau'n gwneud ymdrech o ryw fath. Ymdrechu i ganolbwyntio'n meddyliau, nid yn unig ar y cardiau, anrhegion a'r gwledda, ond ar gywiro rhywfaint ar ein ffordd o fyw ni er mwy dathlu Gŵyl y Geni yn y ffrâm briodol o feddwl.

Nododd Ioan Fedyddiwr bwysigrwydd 'paratoi' drwy ddyfynnu geiriau'r proffwyd Eiseia 'Llais un yn llefain yn yr



anialwch. "Paratowch ffordd yr Arglwydd, unionwch y llwybrau iddo." Os am ddod o hyd i wir ystyr geni Iesu o Nasareth yn ein 'anialwch' gwleidyddol, cymdeithasol a masnachol ni heddiw, yna mae'n rhaid i ni gael gwared ar ambell beth o'n bywyd personol er mwyn rhoi lle i wir ystyr yr ŵyl. Os na fyddwn yn ofalus, gall yr ŵyl ddiflannu dan y cardie, tinsel, twrci a'r siopa ddiiddiwedd!

Mae dysgeidiaeth y baban Iesu a dyfodd yn ddyn ac a drigodd yn ein plith, yn dal yr un mor werthfawr i'n bywydau ni heddiw ag y bu erioed! Dyma gyfle felly i ni i fyfyrto ar, a cheisio byw, y ddysgeidiaeth honno o'r newydd. A beth yw'r ddysgeidiaeth arbennig honno? Dim byd llai na'r gorchymyn 'Câr dy gymydog fel ti dy hunan.' Gallwn ddechrau drwy gofio a gweithio dros newynog y byd; y ffoaduriaid sydd wedi ffoi rhag gormes a thrais eu gwledydd, er mwyn dod o hyd i loches a gobaith mewn gwledydd dieithr; a'r digartre ar strydoedd ein dinasoedd a'n trefi ni yma

parhad ar dudalen 2

Y Parchg Anita Parry Ephraim

Tristwch mawr oedd clywed am farwolaeth annhymig y Parchg. Anita Parry Ephraim yn ddiweddar. Cydymdeimlwn â'i gŵr Gwilym a'u plant; Siôn, Tomos a Catrin yn eu profedigaeth a'u hiraeth. Yr oedd hi yn weinidog yn eglwysi, Ebeneser (A) Trawsfynydd, Penstryd (A) Trawsfynydd, Salem (B) Trawsfynydd, Moreia (P) Trawsfynydd, Abergeirw (P), Maentwrog Uchaf (P) a Cwm Prysor (P). Bydd teyrnged iddi maes o law yn *Y Tyst*.

Blwyddyn newydd dda i blant ym Madagascar

Clywsom yn ddiweddar fod Money for Madagascar, sef yr elusen sy'n gweinyddu'r arian a godwyd gan Apêl Madagascar Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yn 2018-19, wedi llwyddo i sicrhau nawdd er mwyn darparu ciniawau poeth ar gyfer plant mewn ysgolion ym Madagascar. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys plant yng nghartref Topaza a merched yn y lloches Akany Avoko Faravohitra – sef dau o'r pedwar prosiect a gefnogir gan nawdd Apêl Madagascar yr Undeb.

Golyga hyn bydd y plant yn cael pryd cynnes ar gyfer pob dydd ysgol, sy'n ardderchog. Dylai'r prosiect hwn bara am 5 mlynedd o leiaf. Mae hyn yn newyddion cynhyrfus iawn ac i'w groesawu'n fawr, fe gawn ni fwy o fanylion am y cynllun hwn yn y flwyddyn newydd.



Merched o loches Akany Avoko Faravohitra

BYW DYSGEIDIAETH IESU – parhad

ying Nghymru sy'n dal i geisio cysgod, bwyd a dillad. Cofier hefyd am yr anghenus, yr unig a'r llesg yn ein hardaloedd tros yr ŵyl. Ydyn, 'dyn ni'n byw mewn oes hunanol sy'n medru bod yn hollol ddall i rym cariad, trugaredd a gwirionedd y 'Goleuni' a ddaeth yn amlwg yn Iesu!

Blwyddyn Newydd iach i ni gyd!

[Roedd y Parchg Tom Evans, Peniel, i fod i gael ei urddo'n gadeirydd y Cyfundeb yn y Cwrdd Chwarter fis diwethaf, gan olynu Elonwy Phillips a fu'n y swydd ers dwy flynedd oherwydd y pandemig. Ond gan mai cyfarfod rhithiol oedd hwnnw unwaith eto, cytunwyd i ohirio'r urddo tan y Cwrdd Chwarter nesaf.]

IWAN LLEWELYN JONES ... ARALL!

Dydi'r post ddim yn cyrraedd y tŷ yma yn blygeiniol ers tro byd – weithiau mi fydd yn ddiwedd pnawn arno fo yma. Ond dyna fo, mae'n dda ei gael pan ddaw.

Heddiw mi ges i syrpreis annisgwyl – cael gwybodaeth gan BBC Radio Cymru fod 'na swm o arian ar ei ffordd i mi. Waw! Ond dyma sylweddoli nad oeddwn i wedi cyfrannu eitem i Radio Cymru ers peth amser, ac o ddarlenn y ffurflen yma'n llawnach, gwelais mai am gyfraniad ar y rhaglen *Bore Cothi* oedd o. 'Hold on,' medda fi. 'Dydi *Bore Cothi* ddim wedi gofyn dim byd i mi ers tua phedair blynedd, ac yn ôl y ffurflen ro'n i wedi cyfrannu eitem ar 22 Tachwedd 2021.' Fi fydda'r cyntaf i ddweud bod fy nghof i yn anobeithiol weithiau – ond ro'n i'n reit siŵr nad oeddwn i wedi cyfrannu dim mor ddiweddar â hynny ...

Siân Cothi

Dyma bendroni a chofio mod i wedi digwydd *gwrando* ar Siân Cothi rhyw ddiwrnod a bod Iwan Llewelyn Jones yn siarad ar y rhaglen wrth i mi deithio yn y car. Ac nid fi yw'r Iwan hwnnw. Mewn cyfnod o dros hanner canrif rwyf wedi gorfod dweud wrth amryw nad fi yw hwn. 'Ew, oeddach chi'n chwarae piano'n dda ddoe ar y radio ...' 'Be? Lle?' Lawer tro yng nghwrs y blynyddoedd bu i mi sylweddoli bod rhywun wedi drysu rhwng dau, gan fod y ddau ohonom yn sillafu'r enw'r un ffordd yn union – Llew ydi'r ddau

RHANNU PENBLWYDD IESU

Tybed faint ohonoch fu'n dathlu eich pen-blwydd yn ddiweddar a hynny ar ddydd Nadolig? Os felly, a gawsoch enw bedydd tymhorol fel Carol neu Noel? Cafodd Christmas Evans ei eni yn ardal Llandysul ar ddydd Nadolig 1766.

Ar ôl magwraeth galed, bu'n gweithio ar ffermydd lleol, yn eu plith fferm David Davis, Castellhywel – gweinidog Undodaidd ac ysgolfeistr. Ymunodd â'r Undodiaid pan oedd tua 18 oed, gan ddysgu darllen Cymraeg a rhywfaint o Saesneg a Lladin yn ysgol Davis. Cafodd ei guro'n dost mewn ysgarmes tua'r adeg yna, gan golli golwg un llygad. Yn 21 oed, ymaelododd ag eglwys Bedyddwyr Aberduar, cyn mynd i efengyl fel 'pregethwr teithiol' ymhlith Bedyddwyr Llŷn. Ar ôl ei ordeinio yn 1789 bu'n weinidog ym Môn, Caerffili, Caerdydd a Chaernarfon. Bu farw yng nghartref y Parchg Daniel Davies 'y Dyn Dall' yn Abertawe yn 1838.

Un o gedyrn y pupud

'Yr oedd yn un o dri chedyrn pulpud Cymru yn oes aur ein pregethu. Ei gorff anferth, afrosgo, ond esgobaidd; ei deimladau cryfion; ei gof enbyd; yn anad dim, ei ddychymyg – dyna beth o'i gyfalaf naturiol. Yr oedd ynddo athrylith i ganfod personau a phethau, a'u cyflwyno i'w wrandawyr ar ddull darlun a phanorama a drama. Dramâu yw ei bregethau enwocaf ... dull o bregethu oedd yn taro i'r dim i werin ei oes.' (J. T. Jones, *Y Bywgraffiadur Cymreig*). Yn ôl Dr Martin Lloyd Jones, Christmas Evans oedd pregethwr mwyaf y Bedyddwyr ym Mhrydain yn ei gyfnod.

Delw seramig

Daeth hyn i gyd i'm cof wrth ddarlenn yn y *Gazette* (cylichgrawn *antiques*) bod delw seramig o Christmas Evans ymhlith casgliad o 261 darn mewn arwerthiant yn ddiweddar. Cawsant eu cynhyrchu gan grochendy Swydd Stafford. Roedd Anghydfurfiaeth yn gryf iawn yn y parthau hynny yn y 19eg ganrif, ac fe gynhyrchwyd nifer o ddelwau o bregethwyr mawr ac arweinwyr crefyddol eraill y cyfnod. Fe werthwyd yr un o Christmas Evans am £420. Wn i ddim pwy a'i prynodd, ond os oes un gyda chi yn y tŷ, trysorwch ef!

Llythyr yn y *Times* dro'n ôl.

The Revd Christmas Evans (b.1766) was a great Welsh preacher. My late grandmother, when surprised or annoyed but not wishing to take the Lord's name in vain, would exclaim: "Well, Christmas Evans!"

Alun Lenny, Carmarthen

Alun Lenny

ohonom ni, nid Llyw. Ond, erbyn hyn, y mae'r Iwan arall yn ddoethur cwbl haeddiannol.

Dryswch

Y cyfnod rhyfeddaf yn hanes y ddau ohonom oedd pan ddaru ni fel teulu symud i Gemaes ym Mon yn 1971. A faint o filltiroedd sydd yna rhwng Cemaes ac Amlwch (lle magwyd yr Iwan arall)? Pum milltir! Roedd o a minnau'n cymryd yr un dilêit mewn cerddoriaeth, ac am gyfnod mi roedd y ddau ohonom yn yr un ysgol – Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch, ond ei fod o tua pum mlynedd yn hŷn na mi. Roedd y ddau ohonom hefyd yn chwarae'r organ mewn capeli, yn cystadlu mewn steddfodau, a chan nad oedd pobl yn cymryd llawer o sylw o ddyfarniad nac o wahaniaeth oed mewn cystadlaethau fel hyn, ro'n i'n cael y clod am rywbeth wnaeth o, ac yntau'n

cael y clod am ryw bethau (prin) wnes i! Ac oedd, mi roedd hi'n amlach na pheidio yn gryn dipyn o gymysgwch, ac mae'r dryswch hwnnw wedi'n dilyn ni ar hyd y blynyddoedd.

Pianydd o fri

Dilêit neu hobi ydi cerddoriaeth i mi, ac yn ddilêit gwerthfawr iawn, a mawr hyderaf ailgydio ynddo'n llawnach yn y blynyddoedd nesaf fel y bydd ymddeoliad yn agosáu, gan i mi, ers blynyddoedd bellach benderfynu naill ai'r weinidogaeth neu'r byd cerddorol amdani, oherwydd yn fy mlynnyddoedd cyntaf yn y weinidogaeth ceisiais gyfuno'r ddau fyd, a rhaid cyfaddef bod 'na ddiodeff ar un byd am gyfnod, yn enwedig pan oedd rhywun yn dod adref o eisteddfodau a chyngherddau oriau

parhad ar y dudalen gefn



‘Gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad’ Deunyddiau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol



Yn arferol mae deunyddiau'n cael eu paratoi mewn tair iaith ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol gan yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, sef yn Gymraeg, Saesneg a Gaeleg yr Alban. Eleni, am y tro cyntaf, fe fydd deunyddiau'n cael eu paratoi ym mhedair iaith frodorol y Deyrnas Unedig ac yn cynnwys yr Wyddeleg hefyd.

Paratowyd y deunyddiau, sy'n seiliedig ar ymweliad y Doethion o'r Dwyrain â Jerwsalem a Bethlehem, gan eglwysi'r Dwyrain Canol. Fe'u paratowyd â gwasanaethau lle mae pobl yn cael eu cynnill ynghyd mewn golwg, ond fe obeithir y bydd eglwysi a grwpiau'n gallu addasu'r deunydd i'w ddefnyddio ar-lein hefyd, os bydd angen.

Ar gyfer 2022 fe fydd y deunyddiau ar gael i'w [lawrlwytho](https://ctbi.org.uk/week-of-prayer-for-christian-unity-2022/) yn unig (ar y ddolen hon neu'r cyfeiriad gwe hwn: <https://ctbi.org.uk/week-of-prayer-for-christian-unity-2022/>)

Dyddiadau

Yn draddodiadol, fe gedwir yr Wythnos Weddi o'r 18fed i'r 25ain o Ionawr – yr wyth niwrnod rhwng gwyliau Sant Pedr a Sant Paul. Ond mae modd rhoi sylw i'r deunyddiau ar unrhyw adeg, ac mae rhai ardaloedd yn gwneud hynny ar y Pentecost.



Cyflwyniad

Stori gyfarwydd inni yw'r un am y Doethion yn ymweld â'r teulu sanctaidd ym Methlehem. Mae'r Doethion wedi eu gweld yn eu tro fel symbol o amrywiaeth y byd – gwahanol grefyddau a diwylliannau – sy'n dod i dalu gwrogaeth i'r Crist-blentyn. Gellir gweld y stori felly'n cynrychioli'r undod i'r cyfan a grëwyd y mae Duw yn ei ddymuno.

Paratowyd deunyddiau'r Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2022 gan eglwysi'r Dwyrain Canol, eglwysi â'u hanes wedi ei nodweddu gan wrthdaro ac anghydfod, ei liwio gan waed a'i dywyllu gan anghyfiawnder a gorthrwm – ac mae hyn yn dal yn wir heddiw. Cyflwynna Cristnogion y Dwyrain Canol yr adnoddau hyn yn ymwybodol bod y byd yn rhannu llawer o'r poenau a'r anawsterau y maen nhw'n eu profi, gan ddyheu am oleuni i arwain y ffordd at Waredwr, yr hwn sy'n oleuni sy'n trechu tywyllwch.

Mae gwasanaethu'r Efengyl heddiw yn golygu ymrwymiad i'r ddynolryw, yn enwedig y tlotaf, y gwannaf a'r rhai sydd ar y cyrion. Gofynnir am dryloywder ac atebolrwydd gan yr eglwysi wrth iddyn nhw ymwneud â'r byd a chydai gilydd. Golyga hyn fod angen i eglwysi gydweithio er mwyn lleddfu anghenion y trallodus, croesawu'r rhai a ddadleolir, cario beichiau'r rhai dan eu pwn, ac adeiladu cymdeithas gyfiawn a gonest. Mae hon yn alwad ar eglwysi i weithio gyda'i gilydd fel bydd pobl ifanc yn gallu adeiladu dyfodol daionus yn ôl bwriad calon Duw, dyfodol lle y gall pob person dynol brofi bywyd, heddwch, cyfiawnder a chariad.

Cymorth Cristnogol

Bob blwyddyn mae Cymorth Cristnogol yn darparu pwyntiau gweithredu 'Ewch a gwnewch' ar gyfer pob un o'r myfyrdodau dyddiol – gan glymu â gwaith pwysig Cymorth Cristnogol yn lleddfu effeithiau tlodi a bod yn lladmeryddion cyfiawnder.



Cyfyngau Cymdeithasol

Gallwch chi ddangos eich cefnogaeth i Undeb Cristnogol drwy bostio negeseuon o undeb a gwybodaeth am eich digwyddiadau ar wal drydar yr Wythnos Weddi dros Undeb Cristnogol drwy ychwanegu'r hashtag #wpcuwall i'ch trydriad. Gallwch hefyd ddod o hyd i ddiweddariadau am yr Wythnos Weddi drwy ddilyn yr hashtag #wpcu2022.

We Saw His Star in the East...
Gwelsom ei seren ef ar ei chyfodiad
Chunnaic sinn a rionnag anns an àird an ear
Chonaiceamar a réalta ag éirí...

Week of Prayer for Christian Unity 2022
 Wythnos weddi am undeb cristnogol 2022
 Seachdain Ûrnaigh airson Aonachd Chrìostaidh 2022
 An tSeachtain Ghul le hAontacht Chrìostai 2022

Rhifyn Ionawr 2022 o'r Traethodydd

A ninnau wedi gorfod ymgyfarwyddo erbyn hyn â'r amrywiolyn Omicron, gobeithio y bydd cynnwys rhifyn Ionawr o'r *Traethodydd* yn gwrthbwysu'r anawsterau gan godi ein calonnau ar ddechrau 2022. Amrywiaeth sydd gennym eto ar eich cyfer, yn gerddi, ysgrifau, yn adolygiadau gan gyfranwyr cyfarwydd a rhai newydd. Y beirdd, fel arfer, sy'n agor y rhifyn hwn, Mary Burdett-Jones ynghyd ag enw newydd, sef Margriet Boleij, ac yna gadwyn o englynion gan Goronwy Wyn Owen. Ymfalchiwn fod *Y Traethodydd* yn parhau i roi lle teilwng i'n beirdd yn osgytal â'n rhyddieithwyr.

Ffrwyth cyfres o seminarau ar-lein a drefnwyd gan yr Eglwys yng Nghymru i ddathlu ei hetifeddiaeth yw'r ddwy ysgrif gyntaf, y naill gan A. Cynfael Lake yn tafoli o'r newydd *Gweledigaethau'r Bardd Cwsg* gan Ellis Wynne, a'r llall gan Huw Pryce yn trafod *Drych y Prif Oesoedd* gan Theophilus Evans.

Dau o ryddieithwyr pennaf y ddeunawfed ganrif oedd yr awduron hyn: Ellis Wynne yn frodor o Ardudwy, Sir Feirionnydd, a Theophilus yn hanu o Ddyffryn Teifi, er iddo dreulio'r rhan fwyaf o'i yrfa yn

Sir Frycheiniog. Pan aeth y Bardd Cwsg 'ryw brynhawngwaith teg o ha' hirlfelyn tesog' i un o fynyddoedd Cymru â'i sbienddrych yn ei law, gwelodd bethau rhyfedd, sef cwrciau ei gyd-fforddion yn y byd, dirgelion angau ac yna rai o drigolion uffern, sef yr anffodusion a gosbwyd yn y Farn. Waeth pa mor effeithiol, neu aneffeithiol, yr oedd yr awdur yn ei amcan o gymell edifeirwch yn ei ddarllenwyr, creodd olygfeydd llachar o ddiangof a pheth o'r dychan mwyaf deifiol a welwyd yn llên Cymru erioed.

Os creadigaeth fwriadus y dychymyg yw'r *Gweledigaethau*, nid llai dychymyglawn yw'r *Drych*, er iddo honni bod yn llyfr hanes sobr, yn olrhain tras a champau'r Cymry yn y canrifoedd bore. Nod debyg oedd i'r ddau waith, sef galw'r Cymry yn ôl at eu Crêwr, trwy adferiad buchedd unigolion yn achos yr un, a thrwy ystyried eu natur fel cenedl sanctaidd, a freintwyd gan Dduw, yn achos y llall. Fel y dywed Huw Pryce, 'iachawdwriaeth, rhagluniaeth a hanes' yw'r themâu sy'n clymu stori'r *Drych* ynghyd.

Beth bynnag am honiad Theophilus mai llunio llyfr hanes oedd ei amcan, dwy enghraifft o ysgrifennu creadigol athrylithgar oedd y ddau waith hwn, ac er iddynt gael eu llunio dair canrif yn ôl, mae ganddynt bethau crafog ac annisgwyl i'w dweud wrth ffolinebau'r unfed ganrif ar hugain. Darllenwch y ddwy ysgrif hyn, ac yna ewch yn ôl at y *Gweledigaethau* ac at y *Drych* a rhyfeddwch o'r newydd at eu gwerth.

Symud i'r ugeinfed ganrif a pheth o'r ganrif hon a wna leuan Parri mewn ysgrif ddiddorol ar 'y portread' mewn rhyddiaith Gymraeg. T. Gwynn Jones, E. Morgan Humphreys, D. Tecwyn Lloyd, Gwyn Thomas ac Angharad Price yw'r awduron dan sylw, ac astudiaeth loyw o'u dulliau nhw o dynnu portreadau geiriol medrus a chofiadwy o rai o'u cydnabod. Yn ogystal â hon, cawn gan Llion Wigley ail ran ei ymdriniaeth hynod ddarllenadwy o ymwneud rhai o Gymry amlwg yr ugeinfed ganrif â chrefyddau'r Dwyrain, 'Karma Cymraeg: Bwdiaeth, Hindŵaeth a'r Cymry, c. 1923-80', a'r olaf mewn cyfres gan Enid Morgan o ysgrifau a gyhoeddwyd gyntaf ar wefan Cristnogaeth 21.

Pe na bai hyn yn ddigon o arlwy, ceir adolygiadau gan Dafydd Morgan Lewis ar rai o *Gyrolau Cenedl* Dafydd Glyn Jones, Gareth Evans-Jones ar waith diweddar Simon Brooks, *Hanes Cymry: Lleiafrifoedd Ethnig a'r Gwareiddiad Cymraeg*, a Rhiannon Ifans ar olygiad newydd Cynfael Lake ar *Anterliwt y Ddau Gyfamod* gan Elis y Cowper, sy'n dod â ni'n dwi yn ôl at lèn y ddeunawfed ganrif.

Darllenwch, felly, y rhifyn cyfoethog hwn o'r *Traethodydd*, ac yn well fyth, tanysgrifiwch i'r hynaf a'r mwyaf sylweddol o gylchgronau'r diwylliant Cymraeg. Wedi'i argraffu gan Wasg Gomer, Llandysul, gellir ei archebu ar lein trwy gyfrwng y wefan www.ytraethodydd.cymru. Dilynwch ni hefyd ar Twitter ac ar Facebook. Y golygydd yw'r Dr D. Densil Morgan (d.d.morgan@pcdds.ac.uk), Y Gilfach, Ffordd y Gogledd, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7AJ. Am fanylion ynghylch ei archebu, cysylltwch ag Alice Williams (alice@ebcpcw.cymru), Swyddfa Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1DD.

Ionawr 2022

Y Traethodydd



Golwg o'r newydd ar Y Bardd Cwsg

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 9 Ionawr, am 7:30yh (ailldarlledir y Sul canlynol am 11:30yb)
'Pantycelyn' – Yr Athro Derec Llwyd Morgan fydd yn cloriannu mawredd William Williams, Pantycelyn, a Delyth Morgans Phillips fydd yn trafod apêl fythol ei emynau.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 9 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yh

Euros Rhys Evans sy'n cyflwyno cyfres am aelodau o'r un teulu sydd wedi cyfrannu tuag at ein hemynyddiaeth. Heddiw, y ddau gefnder T. Hopkin Evans a David Evans sydd dan sylw ganddo.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 9 Ionawr, am 12:00yp

Gwasanaeth yng ngofal John Pritchard, Llanberis

Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Fel deunydd ar gyfer myfyrdod personol ac astudiaeth grŵp, byddwn yn parhau hyd y Grawys â'r myfyrdodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

9 Dos o realaeth

Darllen: Luc 2:22–38

Yn awr yr oedd dyn yn Jerwsalem o'r enw Simeon; dyn cyfiawn a duwiol oedd hwn, yn disgwyl am ddiddanwch Israel; ac yr oedd yr Ysbryd Glân arno. Yr oedd wedi cael datguddiad gan yr Ysbryd Glân na welai farwolaeth cyn gweld Meseia'r Arglwydd. (adn. 25–6)

Adeg o lawenydd mawr i rieni'r baban ac i'w deulu ehangach a ffrindiau ydy achlysur geni plentyn. Mae yna eithriadau, wrth gwrs – gall iselder wedi'r geni wneud yr achlysur yn un anodd, a gall y geni ddatgelu anableddau yn y plentyn nad oedd modd eu canfod cyn hynny ac y bydd yn cymryd amser i addasu iddyn nhw. Ond hyd yn oed gyda hynny, mae'r dyfodol yn aros amdano fel llyfr agored, tudalennau glân, yn barod i stori'r bywyd newydd hwn gael ei hysgrifennu'n raddol.

Pan ddaeth Mair a Joseff i'r deml i gyflwyno Iesu gerbron yr Arglwydd, roedden nhw'n llawn diolchgarwch yn ddiamau. Ond wrth gyfarfod Simeon ac Anna, fe roddwyd mewnwelediad newydd iddyn nhw eto am arwyddocâd geni'r plentyn hwn. Unwaith eto, gwelwn rwydwaith gymhleth o ddigwyddiadau yn dod ynghyd yn ôl pwrpasau Duw.

Dywedir wrthym fod Simeon yn ddyn cyfiawn a duwiol, un yr oedd Duw wedi datguddio wrtho y byddai'n gweld 'Meseia'r Arglwydd' yn ystod ei fywyd. 'Dan arweiniad yr Ysbryd' (adn. 27), fe ddaeth un ai i'r deml y diwrnod hwnnw, neu i adnabod y plentyn; a hynny sydd fwyaf tebygol. Cymerodd Simeon Iesu yn ei freichiau a mynegi moliant y gallai yn awr farw mewn heddw, 'oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth' (adn. 30). Roedd Joseff a Mair wedi 'rhyfeddu at y pethau oedd yn cael eu dweud' am eu plentyn (adn. 33), ond yr oedd bendith Simeon yn cynnwys rhybudd i Mair – 'a thithau, trywenir dy enaid di gan gleddyf' (adn. 35).

Yn bresennol yr un pryd yr oedd Anna, oedd yn byw yng nghyffiniau'r deml. Daeth hi at y teulu fel yr oedd Simeon yn llefaru a dechreuodd hithau hefyd foli Duw a 'llefaru


am y plentyn wrth bawb oedd yn disgwyl rhyddhad Jerwsalem' (adn. 38). Ni wyddom a oedd ei chynulleidfia hi'n ehangach na dim ond y teulu, ond fe fyddai amseriad ei geiriau yn dilyn rhybudd Simeon am boen i ddod wedi cynnig peth cysur i Mair a Joseff. Mae'n sicr i'r geiriau a lefarwyd y dydd hwnnw gael eu hychwanegu at y rhai y dywedir amdanynt, 'yr oedd Mair yn cadw'r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn myfyrio arnynt' (Luc 2:19; gw. hefyd Luc 2:51).

Atgoffir ni wrth glywed geiriau Simeon y gallai ymadael yn awr mewn heddwch, y gellir mwynhau heddwch Duw pan nad yw popeth yn yr ardd yn edrych yn hyfryd. Efallai i Simeon freuddwydio am ddydd y byddai gogoniant Israel yn cael ei adfer, pryd y byddai pobl yn tyrru i'r deml i addoli Duw, a phryd y byddai'r gormeswyr Rhufeinig wedi ymadael. Doedd dim golwg bod dim o hynny am ddigwydd yn fuan o gwbl, eto yn y Crist-blentyn yr oedd wedi gweld addewid Duw y byddai hyn yn digwydd, ac yr oedd hynny'n ddigon iddo.

Rydym ninnau hefyd yn byw mewn tymor o addewidion anghyflawn. Gallwn alaru wrth weld ffydd yn Iesu yn treio ar draeth ein cyfnod a'n gwlad, hyd yn oed yn ein teulu ein hunain. Ond, fel Simeon, mae ein gobaith i'w ganfod yng Nghrist ei hun, wrth ei weld fel yr un cyflawnwr addewidion heddiw ag yr oedd pan ddaethpwyd ag ef i mewn i'r deml. Roedd Simeon yn gwybod yn ei ysbryd fod Duw wedi gweithredu mewn modd terfynol, ac er nad oedd y cyfan eto wedi dod i fod, roedd hyder Simeon yn Nuw.

Efallai y gallwn nodi hefyd nad yw heddwch bob amser i'w gael heb boen calon wedi ei thrywanu. Weithiau fe fydd datrysiaid i drafferthion bywyd yn ymddangos, ond heb allu dileu'r boen yr ydym eisoes wedi ei phrofi. Cyfraniad Anna oedd annog Mair a Joseff yn hyn i gyd, ac i ddechrau cyhoeddi'r gwirionedd yma i gynulleidfia ehangach. Efallai mai hi oedd yr efengyllydd cyntaf.

Gadewch inni ddod â hyn i gyd yn nes at adref. Dydw i ddim yn meddwl imi adnabod yr un person na chafodd ei siâr ei hun o boen i'w dwyn. Mae nifer fawr o ffynonellau i siom, ac ar brydiau maen nhw'n bygwth ein llethu.



Gallant galedu ein calonnau, ein gwneud yn amheus, yn ansicr ynghylch pwy y gallwn ni ymddiried ynddyn nhw. Nid hynny yn unig, ond gallwn adael i'n hymddiriedaeth yn Nuw ei hun wanio hefyd, oherwydd, er ein bod yn gwybod nad ydy Duw yn un i ymestyn i lawr a gwrthdroi pob achos o bechod dynol, o esgeulustod amlwg, o drychineb naturiol, eto i gyd, rywle yn ddwfn ynom, yr ydym yn flin fod Duw wedi caniatáu i bethau sy'n achosi poen inni ddigwydd.

Rydym wedi gweld o'r dechrau fod yr heddwch a gynigiai Iesu i'w ddisgyblion wedi ei wreiddio yn yr wybodaeth fod Duw yn bresennol. Pan fyddwn yn credu ac yn ymddiried bod Duw efo ni, yna er na ellir datrys y sefyllfa ar hyn o bryd, fe allwn gael nerth i ymddal, i ymgadw ac i gredu bod iachawdwriaeth Duw, hyd yn oed ar gyfer ein bywydau ni ein hunain, yn llaw Duw. Dyma beth a ddysgwn gan Simeon ac Anna. Mewn plentyn bychan diamddiffyn, wedi ei gynnal ym mreichiau cwpl tlawd a gwyllaidd, fe welen nhw fod Duw wedi gweithredu'n derfynol o'u plaid.

Rhaid i chi ddarganfod sut mae hynny'n gymwys i'ch bywyd chi. Beth bynnag a wynebwch heddiw, yfory neu yn y blynnyddoedd i ddod, bydded ichi wybod bod Duw wedi gweithredu a rhyw ddydd, 'Fe sych bob deigr yn o'u llygaid hwy, ac ni bydd marwolaeth mwyach, na galar na llefain na phoen. Y mae'r pethau cyntaf wedi mynd heibio' (Datguddiad 21:4).

Dyna'r gorau y gallaf ei gynnig ichi.

Na, darllenwch hynny eto. Dyna'r gorau yn wir, ac fe allaf ei gynnig i chi.

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Adolygiad o Datod: Profiadau unigolion o ddementia

Gol: Beti George, Y Lolfa £8.99

A ninnau fel Annibynwyr wrthi'n cynllunio i lansio'r ymgyrch Eglwysi Dementia-Gyfeillgar, mae'n briodol ein bod yn rhoi sylw i'r gyfrol ddirindyn hon



gan 17 o gyfranwyr gwahanol yn cwmpasu profiadau rhai yn byw gyda'r cyflwr, eu perthnasau, eu gofalcwyr ac arbenigwyr meddygol. Ar adegau mae'r ysgrifennu'n gignoeth, dro arall yn dyner a chynnes, ond bob amser yn onest a dewr ynghanol pob tristwch.

Datod ymennydd

Fel y dywed Beti George yn y rhagair, mae effaith y clefyd yn troi bywydau ben i waered, a hynny wedi ei grynhoi ganddi i un ymadrodd: 'Datod ymennydd a datod cynlluniau bywyd.' Ar ben hynny, dagrau pethau yw bod yna ddiffygion difrifol yn y gwasanaeth gofal dementia, ac mae annhegwch y sefyllfa'n golygu bod yn rhaid talu am y gofal. 'Dw i'n crefu am gymorth ond does neb yn gwranddo,' meddai Mrs A yn ei hysgrif hi. 'Mae gwir angen strwythur a chymorth ymarferol arnon ni.' Dyna eiriau sy'n cael eu hadleisio droeon gan sawl cyfrannwr, a'r gri o'r galon sy'n britho'r tudalennau yw bod angen rhoi trefn ar y berthynas rhwng y sector iechyd a'r sector gofal. Mae'r naill gyfrannwr ar ôl y llall yn tystio i'r unigrwydd o orfod brwydro am bopeth, a hynny yn erbyn asiantaethau'r llywodraeth.

Angen am gefnogaeth

Beth felly yw gwerth cyfrol fel hon? Mae'n ddarllen digalon ar adegau, a ninnau'n cael ein sugno i mewn i'r anobaith creulon sy'n rhan o brofiadau sawl un. Ond ar y llaw arall, dyna pam ei bod mor bwysig, sef am ei bod yn tanlinellu'r annhegwch ac yn dangos y diffygion yn y ddarpariaeth a'r angen am gefnogaeth ymarferol ac ariannol. Gwyddom i gyd beth yw realiti hyll dementia ond cawn glywed gan rai o'r arbenigwyr mwyaf blaenllaw yn y maes sy'n gwneud cyfraniad pwysig i ddysgu rhagor am y cyflwr. Mae cyfraniadau'r arbenigwyr yn drawiadol ac awdurdodol,

ac mae'n galonddid clywed am y gwaith ymchwil anhraethol bwysig sy'n digwydd yma yng Nghymru i wella ein dealltwriaeth a'n tywys tuag at ddarganfyddiadau pellgyrhaeddol.

Tristwch

Cafodd y pandemig effaith dychrynlyd ar rai â dementia a'u teuluoedd, fel y gwelwn yn y mwyafrif o'r ysgrifau. Mae'r tynerwch a'r anwylded yng nghyfraniadau Efan Rhys a Ffion Heledd Fairclough yn ddigon i doddi'r galon galetaf: dau berson ifanc yn sôn am eu tad-cu, y cyn-famwr Philip Richards, a'u straeon yn datgelu perthynas gariadus, glos, cyn profi'r hiraeth ar ôl colli cysylltiad drwy'r cyfnod clo. Yr un oedd profiad Rhys ab Owen o golli gweld ei dad, Owen John Thomas, y cyn-aelod Cynulliad. Mae'r cyfeiriadau at y modd y collodd ei dad ei ddilêit mewn ffigurau a mathemateg, a'r modd yr anghofiodd ei Gymraeg, ac yntau wedi ei dysgu a'i hyrwyddo mor angerddol, yn ofnadwy o drist. Ysgytwol oedd clywed hanes y cyfnod clo o safbwynt Jayne Evans, rheolwraig cartref a ddaliodd yr aflwydd ei hun, ac a welodd farwolaethau yn y cartref.



Capel Waengolegoed, Llanelwy

Balm

Nid pawb sy'n suddo'n gyflym i grafangau'r dementia, fel y clywn ni gan Glenda Roberts, cyn-nyrs yn ysbyty Bryn Beryl, a hithau'n mynd o gwmpas ysgolion i godi ymwybyddiaeth o'r cyflwr, ac wedi i chi ddarllen ei stori hudolus, mae'n werth troi at YouTube i'w gwyllo gyda chriw o blant yn trafod dementia. Chwiliwch am 'Prosiect Anti Glenda'. Sôn am falm i'r enaid! Cyfraniad arall sy'n cyffwrdd rhywun yw'r hanes calonogol am y ddarpariaeth ardderchog yng nghanolfan gofal dydd capel Waengolegoed, Llanelwy, lle y

dylai'r weledigaeth fod yn ysgogiad i ni i gyd.

Cefnogi a chynnal

Un o gymwynasau mwyaf y gyfrol hon yw ein goleuo a'n hatgoffa o greulondeb dementia, boed hynny'n glefyd Alzheimer, math cyrff Lewy, dementia fasgwlaidd, dementia blaenarlesiol neu amrywiaeth arall. Mae'n bwysig ein bod yn clywed am brofiadau teuluoedd a gofalcwyr heb gelu unrhyw beth, a diolch i Beti a'r cyfranwyr i gyd am rannu eu profiadau. Gobeithio y bydd clywed eu hanes yn ein hysgwyd i ymgyrchu ar eu rhan ac i gynnig yr adnoddau sydd ar gael o fewn ein heglwysi i'w cefnogi a'u cynnal.

Rhown y gair olaf i John Philips, sy'n adrodd am ei brofiadau yn gofalu am ei ddiweddar briod, Bethan, yr awdur a'r hanesydd:

Mae heulwen dan gymylau – a gwên
Yn gudd yn y dagrau;
Yna afiaith hen hafau
Ddaw'n ei dro i'r co' – cyn cau.

J.P.

Emlyn Davies

Arloesi a Buddsoddi

Rhaglen Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

Dyma gyfle i'r eglwysi gael nawdd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i fuddsoddi yn eu dyfodol drwy fentro mewn ffyrdd newydd ac arloesol o hyrwyddo a chyhoeddi'r Efengyl, ac estyn allan i wasanaethu eu cymunedau a'u hardaloedd.

Cynigir symiau sylweddol iawn – hyd at £50,000 dros gyfnod o 5 mlynedd.

Cysylltwch â Ty John Penri
undeb@annibynwyr.cymru 01792 795888

Coleg yr Annibynwyr Cymraeg

**Cynhelir Cyfarfod
blynyddol y Coleg ar
10 Ionawr 2022
am 14.00 a hynny ar
Zoom.**

**Daw rhagor o fanylion
maes o law.**

**Trefor Jones-Morris,
Ysgrifennydd**

Golygyddol

Ffrwythau'r Wlad

Ar ddechrau blwyddyn newydd mae'n hanfodol ein bod fel Cristnogion yn troi at y Beibl i chwilio am oleuni ac arweiniad. Heb droi at air Duw buan rydym yn colli ffydd wrth



i agweddau'r byd anghrediniol ein bodd'i'n raddol. Yn un o'i emynau dywed William Williams 'mae holl leisiau'r greadigaeth holl ddeiniau cnawd a byd, wrth dy lais hyfrytaf tawel, yn distewi a mynd yn fud.' Ond os nad ydym yn troi'n weddigar at y Beibl mae'r gwrthwyneb yn wir 'mae holl leisiau'r greadigaeth, holl ddeniadau cnawd a byd, heb dy lais hyfrytaf tawel, yn cryfhau a threchu ffydd.'

Bu 2021 yn flwyddyn eithriadol o anodd i'n heglwys. Yn sgil yr haint daeth marwolaeth i deuluoedd a chymunedau; mae llawer wedi eu sigo; mae rhai wedi colli eu bywoliaeth ac yn edrych yn ddihyder tua'r dyfodol ac mae'r daith yn edrych yn ddigon tywyll ar ddechrau 2022.

Ymlaen mae Canan

Un o straeon epig y Beibl yw taith cenedl yr Iddewon o'r Aifft i wlad Canan. Gwelwn hwy yn teithio trwy'r anialwch, gan wynebu peryglon o bob math. Ond ar hyd y daith mae'r addewid a roddwyd iddynt gan Dduw yn llosgi yn eu calonau sef, Ei fod yn eu harwain i wlad yr addewid. Trwy bopeth ddigwyddodd ni phylodd y gobaith hwn. Wrth feddwl am daith yr Iddewon i Ganan, fe sylwn ar hyn.

1. Y mae Duw gyda hwy ynghanol pob trallod a bygythiad. Pobl Duw ydynt, cenedl arbennig wedi eu galw gan yr Arglwydd.
2. Mae Duw yn eu cynnal gyda bwyd a diod.
3. Mae Duw yn eu hamddiffyn rhag eu gelynion.
4. Mae Duw yn cadw at ei addewidion.

Fel Cristnogion gallwn gymhwyso hyn i'n bywydau. Ni yw pobl Dduw trwy lesu Grist y mae Ef wedi ein cymodi ac Ef ei hun. (Gw. 1 Pedr 2:9) Rydym ar daith, yn cyd-gerdded, yn cyd-gredu, yn cyd-wasanaethu ac yn cyd-dystio. Ac y mae'r Arglwydd wedi addo y bydd Ef gyda ni pob cam o'r daith. (Gw. Ioan 17:13-19)

Er yr amgylchiadau anodd rydym yn chwioridd a brodyr i'n gilydd trwy lesu yn cyd-deithio ac y mae'r gymdeithas sydd rhngom yn ffynhonnell anogaeth a nerth. Felly, mae bod yn rhan o

eglwys leol yn hanfodol i'n bywydau fel Cristnogion, oherwydd yno cawn gynhafiaeth i'n heneidiau. Mae gennym gwmni ein gilydd ar y daith, ond yn bwysicach mae gennym bresenoldeb Iesu trwy'r Ysbryd Glân. Dywedodd Iesu,

'Gallwch chi fod yn siŵr y bydda i gyda chi bob amser, nes bydd diwedd y byd wedi dod.' Mathew 28.



Sypiau grawnwin

Gyda'r Iesu y mae cysuron arbennig wrth fyw ein bywydau. Nid yw Duw yn gado fod bywyd Cristnogion am fod yn rhwydd ac yn llawn bendithion materol. Ond y mae yn addo bendithion ysbrydol, nerth i weithio dros ei deyrnas yn y byd a'r gobaith o fywyd tragwyddol. Mae pennill hyfryd yn y *Caniedydd* gan O. R. Owen, sef,

Dyro olau ar dy eiriau,
Dyro afael ar y gwir:
Dyro inni sypiau grawnwin,
Grawnwin aeddfed Canan dir.
Hawddach teithio,
Wedi profi ffrwythau'r wlad.

Cyfeirio mae OR, at hanes Israel yn anfon ysbwyd, sef Josua a Caleb, i Ganan i weld sut le ydoedd. Dychwelsant gyda grawnwin mawr melys o wlad yr addewid. Blasodd pobl Israel ffrwythau'r wlad ac oherwydd hynny 'Hawddach teithio.' Trwy lesu rydym ninnau yn blasu bywyd fel y bwriadwyd iddo fod mewn perthynas â Duw. Mae'n fywyd llawn, llawenydd, maddeuant, haelioni, tangnefedd, cariad, cyfiawnder ayb. Ac er bod bywyd yn anodd, rydym wedi ac yn blasu ffrwythau'r wlad. Mae hynny'n anogaeth enfawr i ddyfalbarhau i rannu'r newyddion da ac i geisio byd gwell.

Cofiwn hyn wrth edrych yn ôl dros ein profiadau yn 2021, y dagrau a'r tristwch, y chwerthin a'r llawenydd. Ac wrth edrych ymlaen at 2022, gallwn wneud hynny yn hyderus oherwydd beth bynnag ddaw rydym yn ddiogel, ac y mae'r Arglwydd gyda ni.

Alun Tudur



Cymdeithas Hynafiaethau Sir Gaerfyrddin

STEPHEN HUGHES – APOSTOL SIR GAERFYRDDIN

Darlith Zoom brynhawn Sadwrn 15 Ionawr am 2.30

Traddodir y ddarlith ar achlysur 400 mlwyddiant geni Stephen Hughes gan y Parchg Athro Emeritws D Densil Morgan.

Dylid cofrestru ar gyfer y ddolen Zoom drwy ebostio

carmantiquarians@gmail.com erbyn ddydd Llun 10 Ionawr 2022. (Darlith Gymraeg fydd hon gyda chyfieithu ar y pryd i'r di-Gymraeg)

Roedd Stephen Hughes (1622-88) yn ddylanwadol wrth ledu 'Goleuni Sir Gâr,' yn anghydfurfiwr cynnar ac yn rhagflaenydd i Griffith Jones, Peter Williams, William Williams ac eraill.

Gwybodaeth bellach oddi wrth: Eurig Davies 07843 059605
e.davies11@btinternet.com

Diolcha'r Gymdeithas yn ddiffuant i Ymddiriedolaeth Ivor ac Aeres Evans am noddi'r ddarlith hon.



'Goleuni'r Byd' - ffenest goffa Stephen Hughes yng Nghapel Heol Awst, Caerfyrddin.

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:

Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
Ffôn: 02920 490582
E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
Ffôn: 01766 513138
E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
Ffôn: 01267 232577 /
0781 751 9039
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:

Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddwr yr Adran Gydenwadol
gan Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

IWAN LLEWELYN JONES ... ARALL: - parhad



mân y bore. Aeth yr Iwan arall ymlaen, ysywaeth, i fod yn un o banyddion proffesiynol (er i Rhys Jones, y cerddor o Ddyffryn Clwyd, a chefnogwr da i lawer ohonom yn ei ddydd, amau'r term 'proffesiynol' droeon) amlycaf gwledydd Prydain, ond heb anghofio'i wreiddiau yn Amlwch, a'i gyfraniad o wedi bod, ac yn dal i fod, yn y byd cerddorol-piannyddol, yn aruthrol. Yr hyn dwi isio ei wneud ydi diolch am gael fy nghyfrif ar yr un gwastad ag o!

Yr un gwastad

Pan ddaeth Iesu Grist i'r byd fe ddaeth i'n cymodi ni â Duw, hynny yw, i'n rhoi ni ar yr un gwastad a Duw'r Tad, a dyna ffrain, a ninnau'n cael rhan yn yr etifeddiaeth honno. Hynny yw, roedd Duw yn ddigon mawr i roi lle i ni, a chyfle yn cael ei roi i ni, o ganlyniad, i fod yn debyg iddo fo ... drwy Iesu Grist wrth gwr.

Diolch am gael fy nghymharu â'r Iwan Arall, a do, bûm yn ddigon onest i anfon y ffurflen o'r BBC yn ôl iddynt yn eu hysbysu bod dau ohonom ac nad y fi gymerodd ran yn y rhaglen y bore dan sylw.

Ond diolch mwy i Dduw am ei fawr gariad yn Iesu Grist – mae hwnnw'n anesboniadwy - ni'r anhaeddiannol yn cael cymaint.

Caed baban bach mewn preseb
Drosom ni ...

(Elfed)

**Iwan Llewelyn (Parchedig ... am
unwaith!)**

GWARCHOD ADAR YN Y BEIBL

Mae nifer yn credu mai cysyniad sy'n perthyn i flynyddoedd distrywyl yr ugeinfed ganrif yw gwarchod a diogelu adar a chynefin. Cafwyd pwyslais mawr ar ddiogelu yr 'olaf' o rywogaethau penodol boed hwnnw yn fwnci, teigr neu eryr. Caed pwyslais mawr ar ddiogelu cynefin hefyd fel mae'r pryderon am yr Amazon yn dangos. Ond mewn gwirionedd mae'r cysyniad yn mynd â ni yn ôl at gyfreithiau Moses yn llyfr

Deuteronomium

22:6 'Pan ddamweinio nyth aderyn i'th olwg ar dy ffordd, mewn un pren, neu ar y ddaear, â chywion, neu ag wyau ynddo, a'r fam yn eistedd ar y cywion, neu ar yr wyau; na chymer y fam gyda'r cywion.' Mae'n dilyn yn rhesymol, os arbedwn ni y fam yna fe fydd y cywion yn goroesi ac fe fydd yr hil yn parhau. Os cymerwn y fam ymaith yna mae siawns uchel na fydd y cywion yn goroesi ac felly fe fydd yr hil yn peidio â bod.

Cynefin

Mae ecolegwyr modern wedi dysgu ei bod hi'n bwysig iawn i ddiogelu cynefin er mwyn diogelu rhywogaethau. Unwaith eto gallwn droi at y Beibl am arweiniad 'Gwae y rhai sydd yn cysylltu tŷ ar dŷ, ac yn cydio maes wrth faes, hyd oni byddo eisiau lle, ac y trigoch chwi yn unig yng nghanol y tir.' Eiseia 5:8 Mae Eseciel 34:18 yn ein rhybuddio ymhellach 'Ai bychan gennych bori ohonoch y borfa dda, oni bydd i chwi, sathru dan eich traed y rhan arall o'ch porfeydd? Ac yfed ohonoch y dyfroedd dyfnion, ond bydd i chwi sathru y rhan arall a'ch traed?' Ond yn bwysicah na hyn, gwell yw ystyried geiriau Paul at y Rhufeiniaid, 'O achos bwyd na ddinistra waith Duw. Pob peth yn wir sydd lân; eithr drwg yw i'r dyn fwyta trwy dramgwyd.' Rhufeiniaid 14:20

Cyfarwyddyd bwyta

Mae yn yr Hen Destament hefyd gyfarwyddyd ar ba fath o adar i'w bwyta a pha rai na chaniateir eu bwyta. Hyd yn oed heddiw ar y cyfan mae'r egwyddor o ba adar sydd yn fwyadwy neu beidio wedi ei seilio ar y cyfarwyddyd a geir yn Deuteronomium a Lefiticus. Yn gyffredinol fe rennir y rhywogaethau yn 'adar glân' ac 'adar aflan'. O edrych ar y

rhestr a geir yn Deuteronomium

14 adar
ysglyfaethus neu
adar rheibus yw'r
mwyafrif. Fe geir
eithriadau wrth
gwrs megis y gog
a'r gornchwigen.
Bu cryn
drafodaeth ymysg
ysgolheigion
Beiblaidd sut y

penderfynwyd ar y rhestr o adar gwaharddiedig neu aflan. Un dybiaeth yw fod yr adar wedi eu cynnwys oherwydd maint a siâp yr adenydd. Mewn cyfnod pan nad oedd sbienddrych neu delisgop ar gael dull digon cyntefig fyddai dosbarthu adar yn ôl maint a siâp yr adenydd. Adar mawr eu maint yw'r mwyafrif ar y rhestr, felly hawdd iawn oedd nodi maint a siâp yr adenydd.

Ysglyfaethus

Cyfeirir at yr eryr, y bod, y barcud a'r fwltur. Adar rheibus neu ysglyfaethus yw rhain ac felly yn 'aflan'. O ran maint fe fyddai'n hawdd iawn hela'r adar yma gyda'r arfau oedd ar gael yn ystod y cyfnod ond mi roedd cyfraith y cyfnod yn gwahardd eu defnyddio fel bwyd ac felly yn eu diogelu. Mae'n rhyfeddol meddwl bod cyfreithiau Beiblaidd am ddiogelu adar hyd heddiw yn sail i ddiogelu rhywogaethau o adar rheibus ac ysglyfaethus hyd yn oed yn ein gwlad ni. Y tro nesaf edrychwn ar rai o'r rhywogaethau penodol y cyfeirir atynt yn Deuteronomium a Lefiticus fel adar 'aflan'.

Dewi E. Lewis